# Gwobr Rhagoriaeth Academaidd
# Telerau ac Amodau

1. Rhaid i ymgeiswyr fod yn gwneud cais i astudio'n llawn amser am radd mewn unrhyw bwnc israddedig ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn astudio 120 o gredydau'r flwyddyn. Ni thelir gwobrau i'r rhai sy'n trosglwyddo i flynyddoedd 2 neu 3 y cwrs. Noder nad yw fyfyriwr israddedig ar gwrs lle mae hyd y cwrs yn llai na 3 blynedd yn gymwys ar gyfer y wobr hon.

2. Sylwch fod y Gwobrau hyn ar gael i ymgeiswyr sy'n hanu o'r DU yn unig.

3. Os ydych yn dewis Aberystwyth ac yn ymuno gyda ni mis Medi yma ac os cewch y canlyniadau isod byddwch yn derbyn y wobr yn awtomatig:

   - Graddau AAA yn yr arholiadau Safon Uwch*
   - DDD yn Niploma Estynedig Lefel 3 BTEC
   - 34 pwynt yn y Fagloriaeth Ryngwladol
   - Ystyrir cymwysterau eraill, cyhyd â'u bod yn ymddangos ar dablau tariff UCAS

   **Mae'n bosibl y derbynnir gradd A yn Niploma Uwch Bagloriaeth Cymru, a fydd yn cynnwys y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch, yn lle un o'r graddau Safon Uwch.*

4. Noder fod rhaid cyflawni'r graddau lleiaf fel y nodwyd uchod (hy ni allwn dderbyn unrhyw beth llai na gradd A ar lefel A neu radd Rhagoriaeth mewn BTEC lefel 3). Mae'r 3 cymhwyster gorau'n cael eu hystyried, a allai fod yn gymysgedd o raddau Safon Uwch a BTEC.

5. Bydd cynnydd academaidd anfoddhaol, neu gynnydd anfoddhaol yn unrhyw un o'r meysydd hyn, heb reswm da, yn arwain at derfynu'r dyfarniad.

6. Pan ddyfernir gwobr, gwneir taliadau trwy Aspire Aber. Bydd myfyrwyr yn cael e-bost oddi wrth Aspire Aber yn eu hysbysu bod yr arian ar gael, ynghyd â chyfarwyddyd ynghylch sut i dynnu'r arian allan.

7. Telir gwobrau tra bod myfyrwyr wedi'u cofrestru'n llawn amser ac yn talu ffioedd llawn. Ni wneir taliadau yn ystod blynyddoedd dramor, blynyddoedd mewn cyflogaeth, blynyddoedd rhyngosod ac ati.

8. Bydd Myfyrwyr sy'n gohirio mynediad yn derbyn Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau ar y lefel a hysbysebwyd ar gyfer y flwyddyn gais.

9. Cyfrifoldeb deiliad y dyfarniad yw tynnu'r arian o'r cyfrif cyn i'r cyllid ddod i ben. Os bydd unrhyw falans yn weddill ar y dyddiad penodedig, bydd yr arian yn cael ei symud o'r cyfrif ac ni fydd modd i chi gael mynediad ato mwyach.

10. Bydd taliadau i fyfyrwyr sy'n tynnu'n ôl dros dro yn ailgychwyn o ddechrau'r tymor llawn nesaf pan ailgychwynnant ar eu hastudiaethau (ni fydd unrhyw daliadau sy'n weddill o'r tymor pan dynnant yn ôl yn cael eu talu).

11. Mae'n bwysig cofio, os y byddwch mewn dyled i'r Brifysgol, y bydd taliadau'r Ysgoloriaeth neu Fwrsariaeth yn cael eu dal yn ôl a'u defnyddio yn erbyn y ddyled.

12. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl o'u hastudiaethau am byth cyn Rhagfyr 1af, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio'r cyfan o'r taliad cyntaf yn ôl. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl am byth cyn Mawrth 2il, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio yn ôl y cyfan o'r ail daliad. O dan yr amgylchiadau hyn, os nad yw'r symiau yn cael eu had-dalu, mae'n bosibl y bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at asiantaeth casglu dyledion y Brifysgol.

13. Mae'r wybodaeth a geir yn y ddogfen hwn yn berthnasol i fyfyrwyr a fydd yn ymgymryd â'u hastudiaethau yn Aberystwyth yn unig, ac nid yw'n berthnasol i fyfyrwyr sy'n astudio rhaglenni breiniol neu raglenni wedi'u dilysu a gyflwynir gan bartneriaid.

14. Mae gan Brifysgol Aberystwyth yr hawl i newid neu ddileu unrhyw un o'n Hysgoloriaethau, Bwrsariaethau a Gwobrau Ariannol cyfredol.

15. Bydd methu â bodloni unrhyw un o'r gofynion uchod yn arwain at dynnu'r Ysgoloriaeth yn ôl.